

Diffygion o ran Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol yng Nghyngor Cymuned Aberporth

Blynyddoedd archwilio: 2016-17 i 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2187A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Cymuned Aberporth fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â'r swyddogaethau statudol. Fe'i paratowyd i alluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw'r Cyngor at ddiffygion mewn trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Aberporth. Mae'n cynnwys argymhellion ysgrifenedig a wneir dan adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Adroddiad cryno

| | |
|--------------------------|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Cyngor Cymuned Aberporth | 4 |
| Fy ngwaith archwilio | 5 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| Camau nesaf | 7 |

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol ac felly ni allaf ddod i'r casgliad bod y datganiadau cyfrifyddu'n cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol

Nid yw haeriadau cadarnhaol y Cyngor yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol ynghylch ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn gyson â'r trefniadau gwirioneddol oedd ganddo yn ystod y blynyddoedd y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â hwy

9

11

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o Gyngor Cymuned Aberporth (y Cyngor) ar gyfer 2017-18. Yn ystod yr archwiliad, dygwyd materion i'm sylw a oedd yn dynodi diffygion mewn trefniadau llywodraethu ariannol a phrosesau penderfynu. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw'r Cyngor at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu ariannol a phrosesau penderfynu.
- 2 O dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), rhaid i mi ystyried a ddylwn, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod fy archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Cymuned Aberporth (y Cyngor) neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Rhaid i mi ystyried hefyd a ddylwn i gyhoeddi argymhellion ysgrifenedig dan adran 25 o Ddeddf 2004.
- 3 Wrth ystyried a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ai peidio neu gyhoeddi argymhellion statudol, rwy'n ystyried maint ac effaith y materion yr wyf wedi'u canfod a'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'u cymryd wedyn.
- 4 Rwyf hefyd yn credu ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau y mae eisoes wedi'u cymryd i wella trefniadau a lleihau i'r eithaf y risg y bydd methiannau o'r fath yn digwydd eto.
- 5 Yng ngoleuni'r camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor yn ystod 2020 a natur ac effaith gyffredinol y materion yr wyf yn adrodd arnynt, rwyf wedi penderfynu peidio â chyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ac y bydd argymhellion statudol yn ddigon.
- 6 Felly, i gynorthwyo'r Cyngor i osgoi materion tebyg yn y dyfodol, a chan weithredu dan drefniadau wedi'u dirprwyo, rwy'n gwneud argymhellion ysgrifenedig dan adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

Cyngor Cymuned Aberporth

- 7 Mae Cyngor Cymuned Aberporth yn gwasanaethu pentref Aberporth sydd wedi'i leoli yn sir Ceredigion. Mae ganddo ystod o bwerau a roddwyd iddo gan y gyfraith ac yn nodweddiadol mae'n gwario tua £30,000 bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn ariannu'r gwariant hwn trwy ei braesept blynyddol o oddeutu £40,000. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drethdalwyr y Cyngor yn y gymuned.
- 8 Mae'r Cyngor yn dal symiau sylweddol mewn cronfeydd wrth gefn. Yn 2015, cafodd y Cyngor £65,000 fel derbyniad untro gan fferm solar leol. Cafodd yr arian hwn ei roi o'r neilltu ar gyfer prosiect Canolfan Blaenporth. Ac eithrio'r arian gan y fferm solar, mae'r Cyngor yn dal mwy na dwywaith ei wariant blynyddol mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'r Cyngor wedi fy hysbysu bod y cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu dal yn bennaf i gyllido prosiectau penodol yn y dyfodol.

- 9 Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.
- 10 Fel a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol a sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â'r system honno o reolaeth fewnol.
- 11 Mae'r Cyngor yn cyflogi Clerc rhan-amser i gyflawni rolau'r Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol (y cyfeirir ati fel Clerc yng ngweddill yr adroddiad hwn). Mae rolau'r Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn rolau ar wahân yn gyfreithiol. Cyfrifoldeb cyfreithiol y Swyddog Cyllid Cyfrifol yw paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rwyf wedi defnyddio'r term Clerc yn yr adroddiad hwn gan bod y ddwy rôl yn cael eu cyflawni gan yr un cyflogai. Yn ystod y cyfnod archwilio, roedd swydd y cleric yn cael ei dal gan Vanessa Owens.

Fy ngwaith archwilio

- 12 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn trwy baratoi ffurflen flynyddol sy'n ymgorffori datganiad cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cyflwynir y ffurflen flynyddol hon i mi i'w harchwilio.
- 13 Mae fy ngwaith archwilio arferol i archwilio'r ffurflen flynyddol wedi'i fwriadu i fod yn gymesur â maint cynghorau tref a chymuned a'r symiau o arian cyhoeddus y maent yn eu rheoli. Dylai'r broses archwilio fod yn effeithlon a galluogi cynghorau i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig yn unol â'r amserlen statudol.
- 14 Fodd bynnag, oherwydd oedi sylweddol cyn i'r Cyngor gyflwyno'i ffurflenni blynyddol a'r dystiolaeth archwilio ofynnol ar gyfer 2016-17 a 2017-18, fe atgyfeiriodd fy nghyflenwr archwilio (Grant Thornton LLP) y mater ataf fi i'w ystyried. O ganlyniad, rwyf wedi ehangu cwmpas yr archwiliad a gyflawnwyd gan fy nhîm ac mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith hwnnw.

Canfyddiadau allweddol

- 15 Canfu fy ngwaith archwilio wendidau yn rheolaeth ariannol y Cyngor yn ystod 2016-17 a 2017-18 nad yw'r Cyngor wedi adrodd yn ddigonol arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:
- y Cyngor yn peidio â chydymffurfio â'r raddfa amser statudol ar gyfer cyflwyno'i gyfrifon i gael eu harchwilio ac Aelodau'n peidio â chael eu gwneud yn llwyr ymwybodol o hyn.
 - anghysonderau a hepgoriadau arwyddocaol yn system a chofnodion cyfrifyddu'r Cyngor. Yn bwysig, nid oedd y llyfr arian wedi cael ei gadw'n

llawn ac yn briodol ac roedd y cysoniadau banc diwedd blwyddyn yn anghyflawn.

- 16 O ganlyniad, nid wyf yn gallu dod i'r casgliad felly bod y datganiadau cyfrifyddu'n cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol.

Argymhellion

- 17 Tynnaf sylw'r Cyngor at yr argymhellion canlynol i ymdrin â'r diffygion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.
- 18 Yn y 18 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth archwilydd mewnol newydd. Rwyf wedi fy hysbysu ei fod hefyd wedi adolygu llawer o'i drefniadau a bod mwy o oruchwyliaeth gan Aelodau erbyn hyn.
- 19 Serch hynny, yn fy marn i, dylai'r Cyngor ystyried yr argymhellion hyn yn unol â gofynion adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Arddangosyn 1: fy argymhellion

Rwy'n gwneud 12 o argymhellion i wella trefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu'r Cyngor.

Argymhellion

A1 Dylai'r Cyngor adolygu ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys dogfennau ategol, a sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarw wrth i drafodion gael eu hysgwyddo.

A2 Dylai'r Cyngor adolygu trafodion a ysgwyddwyd yn ystod y cyfnod archwilio i sicrhau eu bod wedi'u hysgwyddo ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt mewn modd priodol.

A3 Cyn cymeradwyo ei gyfrifon blynyddol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y cyfrifon wedi'u hategu gan drywydd archwilio priodol sy'n cysoni'r cyfrifon â'r llyfr arian tanategol.

A4 Fel isafswm, dylai'r Cyngor sicrhau bod cysoniad banc llawn ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei baratoi a'i adolygu.

Argymhellion

A5 Cyn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn adolygu'r haeriadau a wneir a bod ganddo ddigon o dystiolaeth i ategu'r haeriadau hynny.

A6 Bob blwyddyn, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael ac yn cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol yn unol â'r amserlen statudol.

A7 Dylai'r Cyngor adolygu ei swyddogaeth archwilio mewnol i sicrhau ei bod yn ddigonol ac yn effeithiol.

A8 Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer gwneud taliadau a sicrhau bod y rhain yn cael eu cymhwyso ar sail gyson.

A9 Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr holl daliadau i'r Clerc yn cael eu gwneud yn unol â chontract cyflogaeth y Clerc a diweddaru'r contract cyflogaeth lle y bo'n briodol.

A10 Dylai'r Cyngor wneud trefniadau priodol ar gyfer trethu cyflog y Clerc a dod i gytundeb â Cyllid a Thollau EM ynghylch unrhyw daliadau sy'n dal yn ddyledus i Cyllid a Thollau EM.

A11 Dylai'r Cyngor adolygu ei wariant ac ystyried a oes cyfle i adennill TAW.

A12 Dylai'r Cyngor adolygu gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a sicrhau ei fod yn cyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig.

Camau nesaf

20 Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i'r Cyngor ystyried yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r argymhellion gennyf fi.

- 21 Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
 - pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.
- 22 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb.
- 23 Tynnaf sylw'r Cyngor hefyd at y gofynion o ran cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfod a nodir yn adran 26 o Ddeddf 2004.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Archwilio Cymru

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol ac felly ni allaf ddod i'r casgliad bod y datganiadau cyfrifyddu'n rhoi cynrychiolaeth briodol o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor

- 24 Mae Rheoliad 6 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cyllid cyfrifol, sef y Clerc yn achos y Cyngor, benderfynu ar ran y corff, ar ôl ystyried arferion priodol, ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol, a systemau rheoli cyfrifyddu.
- 25 Caiff arferion priodol eu nodi yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol **Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw ar gyfer Ymarferwyr.**
- 26 Mae'r arferion priodol hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn cadw llyfr arian neu gofnod cyfatebol er mwyn cofnodi trafodion ac yn cadw dogfennaeth wreiddiol i ddarparu tystiolaeth i gadarnhau trafodion a gofnodwyd yn y llyfr arian.
- 27 Yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol, mae'r Cyngor wedi haeru ei fod wedi sefydlu trefniadau i baratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. Mae'r Clerc wedi ardystio bod y datganiadau cyfrifyddu'n cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol.

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol o'i drafodion yn ystod y flwyddyn

- 28 Mae'r Cyngor yn cadw ei lyfr arian ar ffurf llyfr arian electronig.
- 29 Dylai'r llyfr arian gofnodi'r holl drafodion yn amserol. Dylai trafodion gael eu cofnodi pan gânt eu hysgwyddo. Ar gyfer taliadau â siec, mae hyn yn golygu y dylai'r dyddiad a gofnodir ar gyfer y trafodiad fod yr un fath â'r dyddiad y dyroddir y siec i'r talai.
- 30 Fodd bynnag, ymddengys fod y llyfr arian wedi'i ysgrifennu ar sail y cyfriflenni banc. Er enghraifft, trawsgrifiad o'r cyfriflenni banc yw llyfr arian 2018-19. Caiff taliadau â siec eu cofnodi ar y dyddiad y cyflwynir y sieciau yn y cyfrifon banc a'r dyddiad y maent yn clirio'r cyfrifon banc yn hytrach na'r dyddiad y cafodd y sieciau eu dyroddi.
- 31 Mae hyn yn golygu nad yw'r llyfr arian yn cyflwyno crynodeb o'r trafodion ariannol a ysgwyddwyd gan y Cyngor yn ystod pob blwyddyn ariannol. Lle na chyflwynir sieciau ar ddiwedd y flwyddyn, cofnodir y trafodion fel rhai a ysgwyddwyd yn y flwyddyn ariannol ganlynol.
- 32 Mae'r llyfr arian yn cofnodi trafodion yn anghywir. Er enghraifft, yn 2016-17, cofnododd y llyfr arian werth siec rhif 001986 fel £100. Pan gliriodd y siec hon y

banc, £200 oedd ei gwerth. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm gwerth taliadau wedi'i danddatgan.

- 33 Mae'r llyfr arian ei hun yn anghyflawn ac nid yw'n cofnodi trafodion a wnaed yn ystod y flwyddyn a gliriodd y cyfrif banc. Yn 2016-17, ni chofnodwyd cyfanswm o £630 mewn taliadau. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm gwerth taliadau yn y flwyddyn wedi'i danddatgan.
- 34 Mewn rhai achosion, caiff taliadau â siec eu cofnodi er nad yw'r sieciau eu hunain wedi cael eu cyflwyno i'r banc a'u bod bellach 'wedi dyddio'. Canfu fy archwiliad sieciau â chyfanswm gwerth cofnodedig o fwy na £500 a ysgrifennwyd yn 2017 ond nad oeddent wedi clirio'r banc.
- 35 Mae'r gwallau hyn yn golygu nad yw'r llyfr arian yn gofnod cyfrifyddu dibynadwy.
- 36 Mae'r Cyngor wedi cydnabod y methiannau yn y cofnodion cyfrifyddu ac wedi datgan ei fod wedi sefydlu mesurau i wella'i weithdrefnau

Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu dogfennau ategol i gadarnhau trafodion a ysgwyddwyd ganddo yn 2016-17 a 2017-18

- 37 Dylai'r cofnodion yn y llyfr arian gael eu hategu gan ddogfennaeth wreiddiol megis derbyniadau ac anfonebau. Mae hyn yn darparu gwiriad pwysig ar ddilysrwydd a chywirdeb trafodion a gofnodwyd.
- 38 Yn ystod fy archwiliad, bu oedi sylweddol cyn darparu gwybodaeth ategol yr oedd ei hangen ar gyfer yr archwiliad. Nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu cofnodion ategol digonol i gadarnhau pedwar taliad â chyfanswm gwerth o £1,476.
- 39 Rwyf felly'n dod i'r casgliad nad yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu llawn.
- 40 Mewn ymateb i ddogfen yn nodi fy nghanfyddiadau dros dro, mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod y taliadau hyn wedi cael eu gwneud am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer y Cyngor.

Ni chafodd y cyfrifon diwedd blwyddyn a ddarparwyd i'w harchwilio eu hategu gan y llyfr arian a chofnodion tanategol ac nid ydynt yn gyson â hwy

- 41 Dylai'r cofnodion yn y cyfrifon blynyddol fod yn gyson â llyfr arian a chofnodion tanategol y Cyngor.
- 42 Canfu fy archwiliad anghysonderau rhwng y datganiadau cyfrifyddu a ardystiwyd gan y Clerc a'r llyfr arian. Nid wyf wedi cael set lawn o bapurau gwaith i ddangos sut y gwnaeth y Cyngor ddeillio'i ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer 2016-17 a 2017-18 o'r llyfr arian. Nid yw'r datganiadau cyfrifyddu'n gyson â'r cofnodion tanategol a'r llyfr arian.

- 43 O ganlyniad i wallau yn systemau a chofnodion cyfrifyddu'r Cyngor, nid wyf yn gallu dod i'r casgliad bod y cyfrifon blynyddol wedi cael eu paratoi yn unol ag arferion priodol a Rheoliadau 2014.
- 44 O ganlyniad i'r diffygion hyn, nid oedd y datganiadau cyfrifyddu a gyflwynwyd i'w harchwilio'n cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol yn briodol.
- 45 Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o faterion gyda'r cofnodion cyfrifyddu gan gynnwys:
- taliadau a oedd wedi dyddio'n cael eu canslo a'u hail-ddyroddi gan arwain at faterion gyda chysoni'r cyfrifon banc; a
 - chofnodion anghywir yn y llyfr arian.
- 46 Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd camau i gyflwyno system gyfrifyddu fwy effeithiol ac wedi caffael meddalwedd at y diben hwn.

Nid yw haeriadau cadarnhaol y Cyngor yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol ynglŷn â'i drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu'n gyson â'r trefniadau gwirioneddol a oedd ganddo yn ystod y blynyddoedd y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â hwy

- 47 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol ochr yn ochr â'r cyfrifon. I ateb y gofyniad hwn, mae'r ffurflen flynyddol yn ymgorffori datganiad llywodraethu blynyddol lle mae'r Cyngor yn gwneud cyfres o haeriadau ynglŷn â'r trefniadau sydd ganddo ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Yn fy marn i, mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datgeliadau cadarnhaol a wnaed ganddo yn ei ffurflenni blynyddol

- 48 Er bod union eiriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gallu amrywio o un flwyddyn i'r llall, mae fwy neu lai'n cwmpasu'r eitemau ('haeriadau' neu ddatganiadau am drefniadau llywodraethu'r Cyngor) a nodir yn **Arddangosyn 4** (ar gyfer 2017-18). Mae hyn hefyd yn dangos ymateb y Cyngor i'r materion hynny a'm hasesiad archwilio innau ar gyfer 2017-18.
- 49 Ar gyfer y blynyddoedd archwilio yr oedd fy archwiliad yn ymwneud â hwy, fe gwblhaodd y Cyngor ei ffurflenni ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth.
- 50 Yn fy marn i, mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datgeliadau cadarnhaol a wnaed ganddo yn ei ffurflenni blynyddol.

Arddangosyn 2: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Cymuned Aberporth ar gyfer 2016-17 a 2017-18

Mae haeriadau'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn anghyson â'm hasesiad i o drefniadau'r Cyngor

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|-----------------|---|
| Wedi paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu'n briodol. | Do | Naddo |
| Wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | Do | Naddo |
| Wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw faterion diffyg cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer. | Do | Naddo |
| Wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau mewn perthynas â'r cyfrifon. | Do | I'w gwblhau unwaith y bydd fy ngwaith archwilio wedi dod i ben. |
| Wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. | Do | Heb ei adolygu. |
| Wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol. | Do | Naddo |
| Wedi ystyried effaith ariannol unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion. | Do | Heb ei adolygu. |

| Haeriad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|-----------------|---|
| Cymerwyd camau priodol mewn perthynas ag adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. | Do | Rhannol – mae'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan ei archwilydd mewnol. |
| Wedi ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb. | Do | Do |
| Wedi cadw cyfrif ar wahân o grantiau a wnaed dan adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972. | Do | Do |

Ffynhonnell: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Cymuned Aberporth a dadansoddiad Archwilio Cymru

Mae'r Cyngor wedi methu â sicrhau bod ei gyfrifon blynyddol wedi'u cyflwyno i'w harchwilio yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

- 51 O dan Adran 13 o Ddeddf 2004, rhaid i'r Cyngor:
- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
 - sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 52 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:
- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos ei fod wedi ardystio'r datganiadau ariannol. Darperir ar gyfer llofnod a dyddiad mewn ffurflen flynyddol.
 - rhaid i aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn ac, yn dilyn eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y


gymeradwyaeth honno i'r datganiadau ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad arnynt.

- rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

53 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol rhaid iddi gael ei hanfon at yr archwilydd allanol. Crynhoir y broses yn **Arddangosyn 3** isod.

Arddangosyn 3: mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn y broses a nodir isod

Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn proses ddiffiniedig:



Ffynhonnell: Ffurflen flynyddol

- 54 Er bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r ffurflen flynyddol o fewn y graddfeydd amser statudol ar gyfer 2016-17 a 2017-18, ni ddarparodd y cyfrifon i'w harchwilio mewn modd amserol. Nid yw cofnodion y Cyngor yn cofnodi bod oedi sylweddol wedi bod cyn cwblhau'r archwiliadau mewnol ac allanol.
- 55 Dylai Ffurflen Flynyddol 2016-17 fod wedi cael ei darparu i gael ei harchwilio yn haf 2017, ynghyd â nifer fach o gofnodion ategol. Gan bod y rhain yn dal heb ddod i law erbyn diwedd mis Tachwedd 2017, fe gysylltodd fy staff â'r Clerc a'r Cadeirydd ar y pryd, gan ofyn am y Ffurflen Flynyddol a'r cofnodion angenrheidiol eraill. Yn y pen draw, darparwyd cofnodion flwyddyn yn ddiweddarach ond roeddent yn anghyflawn serch hynny.
- 56 I wneud yr oedi hwn yn waeth, methodd y Clerc ag ymgysylltu'n ddigonol â'r broses archwilio. Bu'n rhaid pwyso arni i ddarparu set gyflawn o gofnodion cyfrifyddu a thystiolaeth ychwanegol a oedd yn ofynnol i gwblhau'r archwiliad. Fe grëodd hyn waith ychwanegol i'm staff a'm cyflenwr archwilio ac mae wedi cynyddu cost fy archwiliad.

57 Er bod y Clerc wedi bod yn hwyr yn darparu'r cyfrifon a'r dogfennau ategol i'w harchwilio, roedd cyfnod o 12 mis o leiaf pan fethodd y Cyngor â rhoi ystyriaeth ddigonol i'w ddyletswydd i fod yn atebol am ei ddefnydd o arian cyhoeddus wrth drethdalwyr lleol Aberporth.

Mae'r Cyngor wedi methu â gweithredu system rheolaeth fewnol effeithiol yn ystod y blynyddoedd yr oedd yr archwiliad yn ymwneud â hwy

- 58 Dylai'r Cyngor hefyd sefydlu rheolaethau mewnol digonol ac effeithiol i sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu'n gyflawn ac yn gywir a bod prif ddogfennau digonol megis anfonebau'n cael eu cadw i ddilysu trafodion unigol.
- 59 Mae Rheoliad 6 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol.
- 60 Yn ei ddatganiadau llywodraethu blynyddol, mae'r Cyngor wedi darparu haerriad cadarnhaol ei fod wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol.
- 61 Mae elfennau allweddol system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol yn cynnwys:
- paratoi cysoniadau banc cyfnodol a diwedd blwyddyn; a
 - threfniadau priodol ar gyfer cymeradwyo taliadau.

Mae cysoniadau banc y Cyngor ar gyfer 2016-17 a 2017-18 wedi cael eu mantoli'n artiffisial

- 62 Un o'r rheolaethau cyfrifyddu allweddol ar gyfer pob cyngor yw'r cysoniad banc. Mae cysoni llyfr arian/cyfrifylfr y Cyngor â'r gyfriflen banc yn rheolaeth hanfodol sy'n sicrhau bod y llyfr arian/cyfrifylfr yn gofnod cyflawn a chywir o'i drafodion.
- 63 Canfu fy ngwaith archwilio anghysonderau rhwng y balans arian parod a banc yr adroddwyd arno yn y datganiadau cyfrifyddu a'r cysoniad banc. Yn sgîl yr anghysonderau yn y llyfr arian y cyfeirir atynt uchod, ni fyddai wedi bod yn bosibl paratoi cysoniad banc dilys heb wneud addasiadau priodol ar gyfer trafodion a gofnodwyd yn anghywir neu a hepgorwyd.
- 64 Yn fy marn i, nid oedd y cysoniad a gyflwynwyd i'w archwilio wedi cael ei gwblhau'n briodol.

Caiff trefniadau'r Cyngor ar gyfer cymeradwyo taliadau eu cymhwyso'n anghyson, gan danseilio gwerth trefniadau o'r fath

- 65 Mae gan y Cyngor weithdrefn sydd wedi ennill ei phlwyf lle adroddir wrth y Cyngor am daliadau a wneir gyda'r taliadau hynny'n cael eu hawdurdodi'n fisol. Fel arfer, rhoddir cymeradwyaeth yn ôl-weithredol pan fo'r Cyngor yn cwrdd y mis canlynol. Mae cymeradwyo taliadau'n eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Cyngor.

- 66 Canfu fy archwiliad fel a ganlyn:
- ni chofnodir bob amser bod taliadau wedi cael eu cymeradwyo. Yn 2016-17, fe brofais sampl o 19 o daliadau. Nid oedd cymeradwyaeth i naw o'r taliadau hyn wedi'i chrybwyll yn y cofnodion perthnasol. Yn 2017-18, dim ond ar gyfer 47 allan o 64 o daliadau â siec yr oedd cymeradwyaeth wedi'i chofnodi.
 - mewn rhai achosion, roedd gwerth taliadau unigol a wnaed yn wahanol i'r swm a gofnodwyd yng nghofnodion y Cyngor.
- 67 Yn fy marn i, nid yw'r Cyngor wedi gweithredu'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd ganddo i gymeradwyo taliadau.
- 68 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen datblygu ei reolaethau mewnol ymhellach ac mae wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn gan gynnwys adolygiad llawn o drefniadau rheolaeth fewnol a gweithdrefnau newydd ar gyfer adrodd wrth y Cyngor am daliadau.

Mae'r Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol i dalu cyflog y Clerc a didynnu treth ohono

Mae'r Cyngor wedi darparu contract cyflogaeth ar gyfer y Clerc a hwnnw'n nodi'r telerau ac amodau cyflogaeth

- 69 Fel cyflogwr, mae dyletswydd ar y Cyngor dan adran 1 Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 i ddarparu manylion ysgrifenedig eu telerau ac amodau ar gyfer ei gyflogai/cyflogeion.
- 70 Darparwyd contract cyflogaeth dyddiedig Mai 2017 i mi. Deallaf fod y contract yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol. Mae'r contract hwn, dyddiedig Mai 2017, yn cynnwys y manylion canlynol:
- £6,677 yw'r cyflog. Nodir bod hyn ar bwynt cyflog 22 ar y raddfa genedlaethol ar gyfer clercod cynghorau lleol.
 - deg awr yr wythnos yw'r oriau gwaith.
 - gellir talu lwfans ar gyfer defnydd y Clerc o'i chartref fel swyddfa. Nid yw'r swm sy'n daladwy wedi'i bennu yn y contract.
 - mae hawl i 25 diwrnod (yn ôl cyfran) o wyliau a gwyliau cyhoeddus a hefyd dau ddiwrnod statudol ychwanegol.
 - mae'r Cyngor yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae gan y Clerc hawl i ymuno â'r cynllun.
 - pan fyddai'n gweithio y tu hwnt i'w horiau gwaith arferol, roedd y Clerc yn mynd i gael tâl yn ôl cyfradd briodol y Cydgyngor Cenedlaethol am yr oriau hynny neu gael amser o'r gwaith yn lle tâl y cytunwyd arno rhwng y ddwy ochr.

Nid yw taliadau cyflog a wneir i'r Clerc yn cael eu gwneud yn unol â'i contract cyflogaeth

- 71 Canfu fy archwiliad anghysonderau yn y taliadau a wneir i'r Clerc.
- 72 Mae'r Clerc yn cael taliad misol o £467.92.
- 73 Mae contract 2017 yn nodi mai £6,677 yw'r cyflog blynyddol a bod hyn yn cyfateb i bwynt 22 ar y raddfa gyflog. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gywir. O'i gyfrifo ar sail wythnos ddeg awr fel a nodir yn y contract cyflogaeth, £5,584.05 ddylai cyflog blynyddol gros y Clerc fod. Mae hyn yn cyfateb i daliad misol o £465.34.
- 74 Eglurodd y Clerc fod y Cyngor, sawl blwyddyn yn ôl, wedi cytuno i dalu dwy awr yr wythnos yn ychwanegol iddi fel 'tâl gwyliau', gan gynyddu ei hwythnos waith i 12 awr i bob pwrpas. Eglurodd y Clerc mai'r rheswm dros hyn oedd ei bod wedi gweithio gartref am 12 mis y flwyddyn a'i bod naill ai ddim yn cymryd unrhyw amser o'r gwaith neu, ar adegau, yn gweithio yn ystod ei gwyliau pan oedd oddi cartref.
- 75 Ni ddarparwyd copi ar fy nghyfer o gofnod gan y Cyngor yn cymeradwyo'r newid hwn i'r contract.
- 76 Y tâl wrth yr awr sy'n cyfateb i bwynt cyflog 22 yw £10.74. Byddai hyn yn cyfateb i daliad cyflog ychwanegol o £1,117.
- 77 Yn sgîl yr anghysonderau a nodir uchod, nid wyf yn gallu dod i'r casgliad pa un a yw'r Clerc wedi cael y cyflog gros cywir gan nad yw'r taliadau a wneir yn cael eu hategu gan y contract cyflogaeth.

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i ddiwynnu treth o gyflog y Clerc

- 78 Fel cyflogwr, os yw unrhyw rai o'i gyflogeion yn cael cyflog o £112 neu fwy yr wythnos, neu os oes ganddynt ail ffynhonnell incwm, rhaid i'r Cyngor ddiwynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o'u cyflog pryd bynnag y telir cyflog. Rhaid i'r symiau a ddiwynnir gael eu hanfon at Cyllid a Thollau EM yn fisol neu'n chwarterol ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr y Cyngor. Talu Wrth Ennill (TWE) yw'r enw ar y system hon. Rhaid talu didyniadau TWE i Cyllid a Thollau EM. Rhaid i'r holl gyflogwyr gadw cofnodion priodol o holl drafodion y gyflogres hefyd. Gall cyflogwyr bychain fel y Cyngor ddefnyddio system Gwybodaeth Amser Real Cyllid a Thollau EM i gyfrifo'r dreth sy'n daladwy.
- 79 Canfu fy archwiliad nad yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw daliadau dan TWE i Cyllid a Thollau EM.
- 80 Eglurodd y Clerc fod y swm misol penodedig wedi cael ei gyfrifo 'ychydig flynyddoedd yn ôl' ac y byddai wedi ystyried unrhyw ddiyniadau TWE a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol a oedd yn berthnasol iddi ar y pryd.
- 81 Oherwydd yr anghysonderau gyda chyflog y Clerc y cyfeirir atynt uchod, nid wyf yn gallu cadarnhau a yw'r taliadau i'r Clerc yn daliadau cyflog ar ôl cyfrifiad treth tybiannol.

- 82 Mae'r Clerc wedi fy hysbysu y bydd yr archeb sefydlog ar gyfer ei chyflog yn cael ei newid i adlewyrchu'r didyniadau TWE angenrheidiol.
- 83 Mae'r Cyngor wedi datgan ei fod wedi adolygu'r materion gyda chontract a thaliadau cyflog y Clerc a'i fod bellach yn rheoli'r gyflogres gan ddefnyddio'i feddalwedd cyfrifyddu ariannol. Mae taliadau TWE heb eu gwneud wedi cael eu cyfrifo ac yn awr telir cyflog i'r Clerc namyn didyniadau TWE.

Mae'r Cyngor wedi methu ag adennill TAW ar daliadau cymwys

- 84 Fel corff a gwmpesir gan Adran 33 Deddf Treth Ar Werth 1994, gall y Cyngor adennill TAW a dalwyd ar bryniannau. I wneud hynny, dylai'r Cyngor gael derbynebaw ac anfonebau TAW priodol sy'n nodi manylion perthnasol TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr.
- 85 Fodd bynnag, canfu fy archwiliad nad yw'r Cyngor wedi adennill TAW sy'n gyfanswm o £400 gan Cyllid a Thollau EM yn ystod 2016-17 a 2017-18. Er mwyn ariannu ei weithgareddau, rhaid gwneud iawn am yr incwm hwn a gollir gan ddefnyddio arian o ffynonellau eraill. Oherwydd y cyfle cyfyngedig i ffioedd a thaliadau ychwanegol gael eu codi gan y Cyngor, mae hyn yn golygu y bydd y diffyg yn cael ei unioni â phraesept uwch nag a fyddai wedi bod yn angenrheidiol fel arall.
- 86 Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod bellach wedi gwneud pob hawliad TAW y dylai fod wedi'i wneud hyd yma a'i fod wedi gwneud trefniadau i sicrhau y bydd hawliadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn flynyddol.

Mae'r Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd arfer eu hawliau

- 87 Mae Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau'r cyhoedd i edrych ar y cyfrifon sydd i'w harchwilio; i holi'r archwilydd am y cyfrifon; ac i wneud gwrthwynebiadau gerbron yr archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd y pŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:
- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; neu
 - lunio adroddiad dan adran 22 o Ddeddf 2004.
- 88 Mae Rheoliad 17 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff roi hysbysiad trwy hysbyseb i'r cyhoedd mewn lle neu leoedd amlwg a hwnnw'n nodi'r cyfnod pan fo'r cyfrifon a dogfennau eraill ar gael iddynt edrych arnynt ac yn rhoi'r manylion canlynol:
- y lle y byddant, a'r oriau pan fyddant, ar gael ar gyfer hyn;
 - enw a chyfeiriad yr archwilydd;
 - y darpariaethau yn adran 30 ac adran 31 o Ddeddf 2004; a hefyd

- y dyddiad a bennwyd dan Reoliadau 2014.

Er y gofynnwyd yn benodol am hynny ar gyfer yr archwiliad, mae'r Cyngor wedi methu â darparu unrhyw dystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Deddf 2004 a Rheoliadau 2014.

- 89 Yn unol â hynny, rwy'n dod i'r casgliad na all y Cyngor fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf 2004 a Rheoliadau 2014.
- 90 Felly, er mwyn sicrhau bod etholwyr y Cyngor yn cael y cyfle i arfer eu hawliau dan Ddeddf 2004, byddaf yn pennu dyddiad newydd pan fydd etholwyr lleol yn gallu arfer eu hawliau ar gyfer cyfrifon 2016-17, 2017-18 a 2018-19.

Mae gan y Cyngor wefan ond nid yw wedi cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi yn ôl y gyfraith

- 91 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol drefnu bod eu manylion cyswllt a manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion ar gael yn electronig ar y rhyngwyd. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.
- 92 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.
- 93 Er bod gan y Cyngor wefan, dim ond rhan fach o'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig y mae wedi'i chyhoeddi.
- 94 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno gwefan newydd. Fodd bynnag, o ran y sefyllfa ar 12 Gorffennaf 2021, mae peth gwybodaeth, e.e. cyfrifon blynyddol, yn dal heb ei chyhoeddi.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.